# Lliw a llun y Pedwerydd Cynulliad

**Dr. Alys Thomas a Martin Jennings**


**Penderfynodd chwarter Aelodau'r Cynulliad beidio ag ailymgeisio am eu seddi yn etholiad 2011. O ganlyniad, mae mwy o Aelodau newydd yn y Cynulliad y tro hwn nag a fu ers ei sefydlu yn 1999. Sut y mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar liw a llun y Cynulliad?**

Yn etholiad 2011, penderfynodd 15 o Aelodau'r Trydydd Cynulliad – 25 y cant ohonynt – beidio â sefyll eto. O ganlyniad, mae mwy o Aelodau newydd yn y Cynulliad y tro hwn nag a fu ers ei sefydlu. Gwelwyd newidiadau eraill hefyd o ganlyniad i'r etholiad ei hun a'r ffaith bod seddi wedi newid dwylo rhwng y pleidiau gwleidyddol. Oherwydd hynny, o'r 60 Aelod Cynulliad, mae 23 ohonynt yn newydd.

## Cynrychiolaeth o ran rhyw a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME)

Yn etholiad cyntaf y Cynulliad yn 1999, etholwyd 24 o fenywod a 36 o ddynion. Cafodd hyn ei ystyried yn arwyddocaol iawn oherwydd, yn hanesyddol, roedd cynrychiolaeth wleidyddol menywod wedi bod yn isel yn Senedd y Deyrnas Unedig ac ym myd llywodraeth leol. Ar ôl etholiad 2003, roedd cynifer o fenywod ag o ddynion yn Aelodau a chafodd y Cynulliad ei gydnabod yn gorff a oedd ar flaen y gad yn fyd-eang o ran cynrychiolaeth gyfartal. Roedd 28 o fenywod a 32 o ddynion yn y Trydydd Cynulliad.

**Nifer y dynion a'r menywod ar ôl pob etholiad Cynulliad**




*Ffynhonnell: Y Gwasanaeth Ymchwil*


Mae cynrychiolaeth y menywod yn y Pedwerydd Cynulliad wedi gostwng i'r un lefel ag ydoedd yn 1999, sef 24 o fenywod a 36 o ddynion.

Amcangyfrifir bod 2 y cant o boblogaeth Cymru o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME). Nid oedd yr un Aelod BME yn y ddau Gynulliad cyntaf ond yn 2007 etholwyd yr Aelod BME cyntaf i'r Cynulliad. Mae dau Aelod BME yn y Pedwerydd Cynulliad.

## Profiad gwleidyddol

Cafodd 20 o Aelodau'r Pedwerydd Cynulliad eu hethol gyntaf yn 1999. Cafodd saith eu hethol gyntaf yn 2003 a deg yn 2007.

**Pryd y cafodd yr Aelodau presennol eu hethol i'r Cynulliad am y tro cyntaf**





*Ffynhonnell: Y Gwasanaeth Ymchwil*

Mae rhai o'r Aelodau newydd wedi cael profiad gwleidyddol mewn meysydd eraill. Mae 16 o'r Aelodau newydd yn gwasanaethu fel cynghorwyr, neu wedi gwneud hynny, gan gynnwys tri sydd wedi bod yn arweinwyr cyngor.

Mae'r Aelodau newydd eraill yn cynnwys dau gyn Aelod Seneddol a dau sydd wedi gweithio fel cynghorwyr arbennig i Weinidogion Cymru. Yn arwyddocaol, o gofio'r pwerau deddfu newydd a roddwyd i'r Pedwerydd Cynulliad, mae cynnydd yn nifer yr Aelodau sydd â chefndir cyfreithiol. Roedd gan bedwar Aelod arbenigedd cyfreithiol yn y Trydydd Cynulliad, ond mae wyth yn y Pedwerydd Cynulliad.

# Erthygl o gyhoeddiad gan y Gwasanaeth Ymchwil




## Materion o Bwys i'r Pedwerydd Cynulliad

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi'n arbennig ar gyfer Aelodau'r Cynulliad gan y Gwasanaeth Ymchwil. Mae'n trafod rhai o'r pynciau hynny sy'n debygol o fod o bwys i Aelodau yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

**Materion o Bwys i'r Pedwerydd Cynulliad**

Am rhagor o gyhoeddiadau, gweler **ein tudalennau ar wefan y Cynulliad.**
**www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm**

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**